


Black Leadership Group

ColegauCymru
CollegesWales

# ASESIAD CYCHWYNNOL O GYFRANIAD Y SECTOR ADDYSG BELLACH I GYNLLUN GWEITHREDU CYMRU WRTH-HILIOL LLYWODRAETH CYMRU

Mehefin 2022

Ariennir gan
Lywodraeth Cymru
Funded by
Welsh Government

Black Leadership Group (BLG)[1] mewn partneriaeth â ColegauCymru

Asesiad Cychwynnol o Gyfraniad y Sector Addysg Bellach i Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol[2] Llywodraeth Cymru

Adroddiad Ymchwil: **31 Mawrth 2022**

[1] Newidiodd y Black Further Education Leadership Group (BFELG) ei enw i'r Black Leadership Group (BLG) ar 16 Mawrth 2022. Defnyddir enw a logo newydd y sefydliad trwy gydol yr adroddiad, yn cynnwys yr atodiadau.
[2] Roedd gan Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol deitl gwaith, sef Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol yn ystod y prosiect hwn. Mae teitl terfynol y cynllun, Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliaeth wedi cael ei ddefnyddio trwy gydol yr adroddiad, yn cynnwys yr atodiadau.

## Diffiniad

Defnyddir y term *Du gan y BLG yn yr adroddiad hwn fel diffiniad cynhwysol o bobl o gefndiroedd ethnig amrywiol sydd yn rhannu profiad bywyd o effeithiau hiliaeth.

TABL CYNNWYS


| | RHIF Y DUDALEN. |
|---|---|
| **Crynodeb Gweithredol** | 5 |
| Crynodeb o Gylch Gwaith y Prosiect | 5 |
| Crynodeb o'r Canfyddiadau | 5 |
| Crynodeb o'r Argymhellion | 5 |
| Crynodeb o'r Camau Nesaf | 8 |
| **1. Cyflwyniad** | 9 |
| Cefndir | 9 |
| Nodau a Chynnyrch y Prosiect | 9 |
| Llywodraethiant y Prosiect | 10 |
| Cyd-destun | 10 |
| Methodoleg | 11 |
| **2. Prif Ganfyddiadau: Addysg Bellach** | 13 |
| Fframweithiau ac Ymarfer Cydraddoldeb Strategol | 13 |
| Casglu, Monitro a/neu Adrodd ar Ddata | 17 |
| Adolygu'r Cwricwlwm | 19 |
| Gweithredu Cynllun 10 Pwynt y BLG | 20 |
| **3. Prif Ganfyddiadau: Rhanddeiliaid Blaenllaw** | 21 |
| **4. Argymhellion** | 22 |
| **5. Camau Nesaf** | 27 |
| **Atodiad A**: Rhestr o'r Cyfranogwyr | 31 |
| **Atodiad B**: Map Pwnc Peilot y Cwricwlwm | 33 |
| **Atodiad C:** Pwyllgor Llywio'r Prosiect Cwmpasu | 35 |

CRYNODEB GWEITHREDOL

**Crynodeb o Gylch Gwaith y Prosiect**

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniadau prosiect cwmpasu a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2022 a'i gyd-gyflwyno gan ColegauCymru a'r BLG. Cylch gwaith y prosiect oedd gwneud gwaith cychwynnol i helpu i baratoi ar gyfer rhaglen o ymchwil, dadansoddi a datblygu cydraddoldeb ar gyfer y sector addysg y gellid ei gyflwyno o 2022-2023 i ddatblygu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol y Llywodraeth.

**Crynodeb o'r Canfyddiadau**

Canfyddiadau'r prosiect yw, er mwyn creu newid amserol, mae angen gweithredu ar lefel sefydliadol a chenedlaethol, sydd yn gofyn am gyfeiriad ac arweinyddiaeth gan Lywodraeth Cymru. Mae gofynion sylweddol yn gysylltiedig â datblygu'r sail dystiolaeth feintiol ac ansoddol y mae'r Llywodraeth yn ceisio ei ffurfio cyn nodi gweithredoedd fydd yn arwain at ddatgymalu anghydraddoldebau hiliol strwythurol yn y system addysg bellach. Yn ogystal, mae sefydliadau ar fannau cychwyn gwahanol o ran ymarfer Gwrth-hiliol strategol a gweithredol, a bydd angen cymorth sylweddol i feithrin hyder a gallu. Mae'n gadarnhaol iawn i ddatblygiadau yn y dyfodol bod pob sefydliad addysg bellach yn mynegi parodrwydd i newid.

**Crynodeb o'r Argymhellion**

Mae'r argymhellion a geir yn yr adroddiad yn rhoi set fanwl, rhyng-gysylltiedig o weithredoedd i ddwyn yr agenda Gwrth-hiliaeth ymlaen yn sector addysg bellach Cymru. Mae argymhellion 1, 2 a 3 yn rhoi man cychwyn ar gyfer datblygu Cynlluniau Gweithredu Gwrth-hiliaeth pwrpasol a hyfyw ar gyfer pob sefydliad addysg bellach. Trwy gymryd y tri argymhelliad yma gyda'i gilydd, bydd y cynlluniau yn adlewyrchu ac yn bodloni anghenion a blaenoriaethau unigol, yn ogystal â galluogi sefydliadau addysg bellach i gyfrannu'n llawn at nodau a chynnyrch dymunol Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru.

| **Blaenoriaethau Uniongyrchol** | |
|---|---|
| Argymhelliad 1 | Cynlluniau Gweithredu Gwrth-hiliaeth Addysg Bellach: Dylai pob sefydliad addysg bellach ddatblygu a chyhoeddi Cynlluniau Gweithredu Gwrth-hiliaeth sydd yn ddogfennau byw, mewn fformat rhagnodedig gyda thargedau a cherrig milltir ansoddol a meintiol mesuradwy ar gyfer canlyniadau a fwriadwyd, yn arbennig ar gyfer y gweithredoedd hynny sy'n rhychwantu nifer o flynyddoedd, yn cynnwys tuag at 2030. Dylid ymgynghori â |

dysgwyr, prentisiaid a staff *Du a'u cynnwys wrth ddatblygu Cynlluniau Gwethredu Gwrth-hiliaeth.

Bydd Cynlluniau Gweithredu Gwrth-hiliaeth yn cryfhau a) Cynllun Cydraddoldeb Strategol pob sefydliad addysg bellach a b) eu cyfraniad at Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Mae Adroddiadau Proffil Sefydliadol Addysg Bellach a gynhyrchir ar gyfer pob sefydliad fel rhan o'r prosiect hwn yn rhoi sylfaen ar gyfer y gwaith hwn.

Argymhelliad 2

Casglu, monitro a/neu adrodd ar ddata ansoddol a meintiol: I danategu strategaeth ac ymarfer ac i fesur cynnydd, ar frys, dylai Llywodraeth Cymru weithio'n gydweithredol gyda ColegauCymru, sefydliadau addysg bellach, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC Cymru) a rhanddeiliaid perthnasol eraill i gefnogi gwelliannau yn casglu, monitro a/neu adrodd ar ddata cynhwysfawr, cymaradwy yn ymwneud ag ethnigrwydd ar gyfer dysgwyr a phrentisiaid (yn ôl lefel), staff, prosesau AD, digwyddiadau o fwlio, aflonyddu, gwahaniaethu a hiliaeth, a phrofiadau bywyd dysgwyr, prentisiaid a staff *Du.

Argymhelliad 3

Gweithredu Cynllun 10 Pwynt y BLG: Dylai Llywodraeth Cymru roi cynlluniau yn eu lle, gyda chyllid priodol, i gefnogi gweithredu Cynllun 10 Pwynt BLG, yn cynnwys rhaglen gydweithredol gysylltiedig o ddysgu proffesiynol, Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Lleoliadau Doniau *Du mewn addysg bellach yng Nghymru a rhaglen genedlaethol cysgodi arolygwyr Estyn ar gyfer Staff *Du mewn addysg bellach. Bydd angen rhoi'r olaf ar brawf gydag Estyn.

Argymhelliad 4

Cynlluniau Gwrth-hiliaeth sefydliadol ehangach: Fesul achos, dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynnwys gofyniad i ddatblygu cynlluniau gweithredu Gwrth-hiliaeth sydd yn cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Cymru mewn llythyrau cylch gwaith/grant presennol ac yn y dyfodol i randdeiliaid addysg bellach allweddol y mae'n eu hariannu.

Blaenoriaethau Tymor Canolig

Argymhelliad 5

Adolygiad o'r Cwricwlwm: Dylai Llywodraeth Cymru ariannu adolygiadau cwricwlwm peilot sydd yn sefydlu cynnwys ac

addysgeg Wrth-hiliaeth, gyda'r bwriad o ddatblygu Fframwaith Cwricwlwm Gwrth-hiliaeth Cenedlaethol ar gyfer addysg bellach. Dylai hwn fod yn brosiect cydweithredol yn cynnwys arbenigwyr cwricwlwm Gwrth-hiliaeth, sefydliadau dyfarnu allweddol, a sefydliadau addysg bellach, a dylai gyd-fynd â mentrau cymhwyster ôl-16 presennol ac agweddau perthnasol o'r argymhellion a dderbyniwyd eisoes gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cwricwlwm ysgol uwchradd.

Argymhelliad 6

Llwybrau dilyniant ESOL: Er mwyn cefnogi ei nod o "sicrhau bod darpariaeth ESOL yn cefnogi anghenion cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn llawn", dylai Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â sefydliadau addysg bellach, ColegauCymru a Cymwysterau Cymru, ddatblygu a chyhoeddi llwybrau dilyniant ar gyfer dysgwyr ESOL i hyfforddiant galwedigaethol, prentisiaethau ac addysg bellach. Dylid defnyddio data ar ddilyniant i'r rhaglenni hyn i a) bennu effeithiolrwydd darpariaeth bresennol a b) nodi blaenoriaethau ar gyfer datblygiad yn unol â chanlyniadau adolygiad polisi ESOL sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd.

Argymhelliad 7

Gofynion ar gyfer datblygu cymwysterau ôl-16: Dylai Llywodraeth Cymru roi disgwyliadau polisi ar waith i sicrhau bod yr agenda Wrth-hiliaeth wedi cael ei hystyried yn natblygiad pob cymhwyster ôl-16 yn y dyfodol o ran cynnwys, addysgeg a dulliau dylunio a chyflwyno.

Argymhelliad 8

Cefnogi ac annog llais dysgwyr *Du a staff *Du: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda ColegauCymru, sefydliadau addysg bellach a rhanddeiliaid cysylltiedig i ddatblygu strwythurau a dulliau priodol sydd yn galluogi, fydd yn sicrhau cyfraniad dysgwyr, prentisiaid, staff a'r gymuned ehangach *Du i'r agenda Wrth-hiliaeth ac i ddatgymalu annhegwch hiliol sy'n bodoli trwy gydol y system addysg bellach.

Argymhelliad 9

Arweinyddiaeth Wrth-hiliaeth: Mae gan Lywodraeth Cymru rôl hanfodol i'w chwarae yn dangos arweinyddiaeth amlwg o Wrth-hiliaeth trwy: gydweithredu â ColegauCymru a sefydliadau addysg

bellach i gyfleu gweledigaeth glir ar gyfer Gwrth-hiliaeth yn y sector a beth mae hyn yn ei olygu'n ymarferol, gan ddatblygu cynllun penodol yn dangos sut bydd yr adrannau Arweinyddiaeth a Chynrychiolaeth ar dudalennau 34-40 o Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn berthnasol yng nghyd-destun addysg bellach a'r sector addysg yn ehangach.

Argymhelliad 10

Uchelgais Cymru Wrth-hiliol: Dylai Llywodraeth Cymru egluro statws Uchelgais Cymru Wrth-hiliol – er enghraifft a yw'n arweiniad ac yn anstatudol – a sut mae'n croestorri â'r Ddeddf Cydraddoldeb.

Argymhelliad 11

Bwrdd Arfaethedig ar gyfer Comisiynu Addysg Drydyddol ac Ymchwil yng Nghymru: Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Bwrdd yn gynrychioliadol yn ei aelodaeth, fel rhan o strategaeth ar gyfer cynrychiolaeth *Ddu gynyddol amlwg mewn swyddi arweinyddiaeth pwysig trwy Benodiadau Cyhoeddus i Fyrddau Cyrff Cyhoeddus yn ehangach.

Blaenoriaeth Tymor Hwy

Argymhelliad 12

Mwy o ymchwil: Dylai Llywodraeth Cymru ariannu mwy o ymchwil a phrosiectau i gefnogi mentrau ac ymarfer Gwrth-hiliol arloesol yn cynnwys casglu data, monitro ac adrodd, llais dysgwyr, prentisiaid, staff a chymunedol *Du, adolygu a datblygu'r cwricwlwm, addysgeg, asesu, adnoddau, arfer da, sicrwydd ansawdd a chraffu, arweinyddiaeth yn cynnwys llywodraethu a meithrin gallu, strategaethau recriwtio a dilyniant gyrfa i ddenu a chadw staff *Du.

**Crynodeb o'r Camau Nesaf**

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi asesiad cychwynnol o'r cyfraniad presennol y gall sefydliadau addysg bellach ei wneud i Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru (nawr ac ar gyfer meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach i wireddu uchelgais Cymru Wrth-hiliol erbyn 2030).

Mae canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad yn helpu i baratoi ar gyfer rhaglen o ymchwil, dadansoddiad a datblygiad cydraddoldeb ar gyfer y sector addysg bellach ar lefel sefydliadol a chenedlaethol y gellir ei chyflwyno o 2022-2023.

Y cam nesaf i Lywodraeth Cymru yw datblygu cynllun ag adnoddau gyda graddfeydd amser i gefnogi cyflawni argymhellion yr adroddiad, gyda ffocws cychwynnol ar argymhellion 1, 2 a 3 i ddarparu'r fframwaith ar gyfer datblygu'r agenda wrth-hiliaeth mewn sefydliadau addysg bellach ac ar draws y sector. Dylid datblygu'r cynllun mewn cydweithrediad â sefydliadau addysg bellach a sefydliadau perthnasol ac mewn ymgynghoriad â dysgwyr a staff *Du. Yn ail, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau'r arbenigedd sydd yn angenrheidiol i gyflawni'r cynllun.

## 1. CYFLWYNIAD

***Cefndir***

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniadau'r prosiect cwmpasu a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2022. Cylch gwaith y prosiect oedd cynnal gwaith cychwynnol i helpu i baratoi ar gyfer, dadansoddi a datblygu rhaglen gydraddoldeb ar gyfer y sector addysg bellach y gellid ei chyflwyno o 2022-2023 i ddatblygu cynllun uchelgeisiol a radical Llywodraeth Cymru ar gyfer gwneud Cymru yn genedl Wrth-hiliol, *Cymru Wrth-hiliol: Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i Gymru* (Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol).

1.2 Cydgyflwynwyd y prosiect gan y BLG a ColegauCymru gyda'r BLG yn gwneud ymchwil ddesg ac yn cynnal cyfarfodydd gydag arweinwyr a rhanddeiliaid allweddol addysg bellach, a ColegauCymru'n gweinyddu'r prosiect. Gydag ymgysylltiad gweithredol cyfranogwyr allweddol, cwblhawyd y prosiect erbyn 31 Mawrth 2022.

1.3 Mae'r argymhellion a geir yn yr adroddiad yn rhoi set rhyng-gysylltiedig manwl o weithredoedd i ddwyn yr agenda Wrth-hiliaeth ymlaen yn sector addysg bellach Cymru.

***Nodau a Chynnyrch y Prosiect***

1.4 Nodau a chynnyrch y prosiect oedd:

a) datblygu trosolwg o sefyllfa sefydliadau addysg bellach yng Nghymru a rhanddeiliaid allweddol mewn perthynas ag ystyr ehangach Gwrth-hiliaeth,
b) cael dealltwriaeth o anghenion data (dysgwyr, staff a llywodraethiant),
c) nodi diddordeb mewn, a meysydd cwricwlwm a/neu gymwysterau ar gyfer adolygiad o gwricwlwm addysg bellach o fis Ebrill 2022,

d) nodi diddordeb ym mhecyn Cymorth 10 Pwynt y BLG ar draws sefydliadau addysg bellach Cymru a'r cymorth sydd ei angen i'w gweithredu, *a*
e) creu adroddiad ar gyfer Llywodraeth Cymru gyda chyfres o argymhellion a ffyrdd o weithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn effeithiol yn y sector addysg bellach o fis Ebrill 2022.

**Llywodraethiant *y Prosiect***

1.5 Y pwyllgor llywio *(Atodiad C)*, yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau addysg bellach, ColegauCymru a'r BLG, oedd yn goruchwylio'r prosiect. Cylch gorchwyl y grŵp llywio oedd sicrhau bod nodau a chynnyrch y prosiect yn cael eu cyflawni. Mynychodd cynrychiolaeth o Lywodraeth Cymru gyfarfodydd i arsylwi.

### Cyd-destun

1.6 Mae'r prosiect cwmpasu yn eistedd o fewn cyd-destun agenda Wrth-hiliaeth drawsnewidiadol Llywodraeth Cymru wedi ei gyfleu yng ngweledigaeth, nodau ac amcanion Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Mae'r prosiect yn ceisio cefnogi'r sector addysg bellach yn mynd i'r afael ag annhegwch hiliol yn y system addysg gyda ffocws ar greu diwylliant Gwrth-hiliol, cau bylchau cyrhaeddiad o ran sgiliau, hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer dysgwyr a phrentisiaid *Du, a chyflawni gweithlu cynrychioliadol ac ethnig amrywiol, yn cynnwys rolau arweinyddiaeth a llywodraethiant. Yn ogystal, mae'r prosiect yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) trwy wneud cyfraniad pwysig i nodau 'Cymru sy'n fwy cyfartal' a 'Chymru o gymunedau cydlynus.'

1.7 Mae pedwar llinyn y prosiect, sef fframwaith ac ymarfer strategol, casglu data, monitro ac adrodd, adolygu'r cwricwlwm a gweithredu Cynllun 10 Pwynt y BLG i ddylanwadu ar newid, yn cyd-fynd yn agos ag a) nodau ac amcanion Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, b) nodau ar gyfer prentisiaethau yn y sector sgiliau a c) tair o'r pump o nodau ac amcanion trawsbynciol (asesiadau effaith mwy ystyrlon, yr angen am ddata mwy diweddar ar brofiadau bywyd a data sydd yn gadarn ac yn fanwl).

1.8 Mae nodau ac amcanion Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ar gyfer y sector addysg bellach yn canolbwyntio ar ddatblygu sail dystiolaeth ar gyfer deall gwybodaeth ansoddol a meintiol cyn nodi gweithredoedd fydd yn arwain at ddatgymalu annhegwch hiliol strwythurol yn y system addysg. Mae'r prosiect yn

asesu’r cyfraniad presennol y mae sefydliadau addysg bellach yn ei wneud i’r sail dystiolaeth a’r ddealltwriaeth o:

- ddata ethnigrwydd ar gyfranogiad a chanlyniadau ar gyfer dysgwyr addysg bellach, a’r rhesymau sylfaenol dros unrhyw fylchau a gwahaniaethu rhwng grwpiau,
- data ethnigrwydd ar staff addysg bellach a’r rhesymau sylfaenol dros unrhyw dangynrychiolaeth,
- profiadau bywyd dysgwyr a staff *Du, *a*
- sut mae sefydliadau addysg bellach yn gweithio i sicrhau nad yw aflonyddu a gwahaniaethu’n cael eu dioddef.

**Methodoleg**

1.9 Mae canlyniadau ac argymhellion yr adroddiad yn deillio o wybodaeth ansoddol a meintiol a gasglwyd trwy ymchwil ddesg, cyfarfodydd wedi eu strwythuro gyda sefydliadau addysg bellach, a chyfarfodydd gyda rhanddeiliaid allweddol (mae Atodiad A yn cynnwys rhestr o’r cyfranogwyr).

**Ymchwil ddesg: sefydliadau addysg bellach**

1.10 Gwnaed ymchwil ddesg ar fframweithiau ac ymarfer strategol a pholisi pob sefydliad addysg bellach, yn cynnwys eu hamcanion cydraddoldeb, Cynllun Cydraddoldeb Strategol, adroddiad blynyddol ar gynnydd yn erbyn y cynllun a data cydraddoldeb hiliol, a gwybodaeth a mentrau cydraddoldeb eraill.

1.11 Roedd diben yr ymchwil yn ddeublyg. I ddechrau, roedd yn cynorthwyo creu darlun o sefyllfa pob sefydliad addysg bellach ar hyn o bryd, yn cynnwys:

a) polisïau, gweithdrefnau a mentrau mewn perthynas â chydraddoldeb hiliol a Gwrth-hiliaeth,

b) amcanion ar gyfer a chynnydd yn datblygu cydraddoldeb hiliol a Gwrth-hiliaeth yn y sefydliad a’r gymuned ehangach,

c) y sail dystiolaeth ar gyfer gwerthuso a monitro cynnydd yn erbyn amcanion cydraddoldeb sefydliadol, yn cynnwys mathau o ddata ethnigrwydd sydd yn cael eu casglu, *a’r*

d) graddau y mae cynlluniau presennol ac amcanion cydraddoldeb yn cefnogi nodau Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru a’i huchelgais am Gymru Wrth-hiliol erbyn 2030.

Yn ail, bydd yr ymchwil yn helpu:

e) i ddarparu'r fframwaith ar gyfer rhaglen o ymchwil, dadansoddi a datblygu cydraddoldeb mwy cynhwysfawr ar gyfer y sector Addysg Bellach y gellid ei gyflwyno o 2022-2023.

**Cyfarfodydd gydag arweinwyr addysg bellach**

1.12 Cynhaliwyd cyfarfodydd cychwynnol a dilynol (pan oedd angen) oedd yn awr o hyd gyda phrif weithredwyr pob un o dri ar ddeg o sefydliadau addysg bellach Cymru. Dewisodd rhai prif weithredwyr fynychu gydag un neu fwy o aelodau'r uwch dîm arweinyddiaeth. Dilynwyd agenda â strwythur ar gyfer y cyfarfodydd.

1.13 Diben y cyfarfodydd gydag arweinwyr addysg bellach oedd:

- cael dealltwriaeth well o ble mae pob sefydliad yn sefyll mewn perthynas â Gwrth-hiliaeth a thegwch hiliol yn yr ystyr ehangaf,
- cael trafodaeth fanwl am gyfraniad pob sefydliad i nodau Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector addysg bellach a Chymru Wrth-hiliol erbyn 2030,
- archwilio anghenion data presennol ac i'r dyfodol (dysgwyr, staff a llywodraethiant),
- nodi meysydd posibl o'r cwricwlwm a/neu gymwysterau ar gyfer adolygiadau peilot,*ac*
- asesu diddordeb mewn Cysylltiad â BLG a gweithredu'r Cynllun 10 Pwynt a pha gymorth sydd ei angen i hwyluso hyn.

**Cyfarfodydd gyda Rhanddeiliaid Allweddol**

1.14 Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda deuddeg o randdeiliaid allweddol i gael dealltwriaeth o'r canlynol ym mhob sefydliad:

- cylch gwaith, uchelgais a gobeithion mewn perthynas â Gwrth-hiliaeth a thegwch hiliol mewn perthynas a nodau ac amcanion Cymru Wrth-hiliol yn cynnwys y rheiny ar gyfer y sector addysg bellach,
- rolau a chyfrifoldebau ar gyfer hyrwyddo Gwrth-hiliaeth a mynd i'r afael ag annhegwch hiliol,
- blaenoriaethau ar gyfer datblygu ymarfer Gwrth-hiliol ac ymarfer sydd yn deg yn hiliol,

- cyfraniad at Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru a'r nod o gael Cymru Wrth-hiliol erbyn 2030, *a*
- sut gall sefydliadau ar draws y sector fynd i'r afael ag annhegwch hiliol ar y cyd yn y system a datblygu dyfodol gwell ar gyfer cymunedau amrywiol Cymru.

1.15 Dylid nodi bod Llesiau Dysgwyr *Du, Staff *Du, a Llywodraethwyr *Du AB yn sylweddol absennol o'r ymchwil.

## 2. PRIF GANFYDDIADAU: ADDYSG BELLACH

2.1 O ganlyniad i ymchwil ddesg a chyfarfodydd, mae adroddiadau proffil wedi cael eu creu yn nodi:

a) ble mae pob sefydliad yn sefyll mewn perthynas â Gwrth-hiliaeth yn ei ystyr ehangaf,
b) anghenion data (dysgwyr, staff a llywodraethiant),
c) diddordeb mewn, a meysydd cwricwlwm a/neu gymwysterau ar gyfer adolygiad o'r cwricwlwm addysg bellach o fis Ebrill 2022
d) diddordeb mewn, a'r cymorth sydd ei angen i weithredu Cynllun 10 Pwynt y BLG

Mae'r adroddiadau proffil hyn sydd yn cynnwys meysydd i'w datblygu yn darparu map ffordd ar gyfer agenda Wrth-hiliaeth pob sefydliad unigol i symud ymlaen a gwneud cyfraniadau mwy effeithiol i nodau ac amcanion Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

*Fframweithiau ac Ymarfer Cydraddoldeb Strategol*

2.2 Fel cyrff rhestredig, mae'n ofynnol ar sefydliadau addysg bellach Cymru i gyhoeddi eu hamcanion cydraddoldeb a Chynllun Cydraddoldeb Strategol[3]. Mae pob un ond dau o'r sefydliadau addysg bellach yn cyhoeddi cynllun ar eu gwefan. Mae'r ddau sefydliad addysg bellach yma yn rhan o grwpiau prifysgol ac mae ganddynt gynllun ar y cyd gyda'u prifysgol partner sydd ar gael ar wefan y brifysgol.[4]

2.3 Mae'r gofynion ar gyfer Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol yn cynnwys:

[3] Amcanion Cydraddoldeb a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol: Canllaw i Awdurdodau Cyhoeddus Rhestredig yng Nghymru, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.
[4] Coleg Sir Gâr a Coleg Ceredigion, a Coleg Merthyr Tudful. Mae gan y cyntaf ddolen i wefan UWTSD nad yw'n gweithio, ac mae'r olaf ond yn cyfeirio at gynllun USW yn ei Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae Coleg Sir Gâr a Coleg Ceredigion wedi datgan yn eu haddewid Mae Bywydau Du o Bwys eu bod yn bwriadu cyhoeddi eu Cynllun Cydraddoldeb Strategol eu hunain ac mae Coleg Merthyr Tudful yn datgan yn adroddiad Blynyddol ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol yn 2019-20 ei fod wedi cyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 ar wahân.

a) amcanion cydraddoldeb a’r camau (gweithredoedd) ar gyfer cyflawni’r amcanion gyda graddfeydd amser,

b) trefniadau ar gyfer monitro cynnydd, *a’r*

c) trefniadau sydd gan bob sefydliad ar gyfer cyhoeddi’r wybodaeth berthnasol am gydraddoldeb sydd ganddo ac y mae’n ei hystyried yn briodol i’w chyhoeddi, yn cynnwys unrhyw wybodaeth am wahaniaethau o ran tâl yn ymwneud â nodwedd warchodedig ac achosion y rhain.

2.4 Mae ansawdd a manylion Cynllun Cydraddoldeb Strategol pob sefydliad addysg bellach yn amrywio. Yn y cynlluniau gorau, mae’r amcanion cydraddoldeb yn rhai â ffocws, yn targedu’r annhegwch hynny y mae angen i’r sefydliad fynd i’r afael â nhw a’u datblygu mewn ymgynghoriad â dysgwyr, staff a rhanddeiliaid ehangach. Mewn gormod o gynlluniau mae’r amcanion cydraddoldeb yn tueddu i fod yn ddatganiadau uchelgeisiol nad ydynt yn nodi problemau sylfaenol a sut mae’r sefydliad yn bwriadu mynd i’r afael â’r rhain.

2.5 Nid yw Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol y rhan fwyaf o sefydliadau addysg bellach yn cynnwys:

- y sail dystiolaeth ansoddol a meintiol ar gyfer pob amcan,
- union natur y broblem neu’r problemau y mae pob amcan a’i weithredoedd cyfatebol yn ceisio mynd i’r afael â nhw,
- targedau ansoddol a meintiol mesuradwy,
- cerrig milltir ar gyfer canlyniadau a fwriadwyd, yn arbennig y rheiny ar gyfer gweithredoedd sy’n rhychwantu sawl blwyddyn,
- amcanion neu weithredoedd yn ymwneud â chynnwys y cwricwlwm, ymagweddau addysgeg a natur asesu er gwaetha’r ffaith fod y rhain yn hanfodol i gyrhaeddiad a chanlyniadau dysgwyr (mae gweithredoedd yn tueddu i fod o amgylch hygyrchedd a chynhwysiant).
- set lawn o ddata a adroddir yn gyson ar ddysgwyr, prentisiaid, staff, llywodraethwyr, prosesau AD, cwynion, disgyblu, achosion o aflonyddu, bwlio, gwahaniaethu, a phrofiadau bywyd dysgwyr, prentisiaid, staff, a llywodraethwyr *Du.

Mae Adroddiadau Proffil Sefydliadau Addysg Bellach unigol yn rhoi arweiniad ar, ac argymhellion ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol (ac Adroddiad Cydraddoldeb

Blynyddol) y sefydliad. Bydd y proffiliau yn cefnogi gosod targedau gyda mwy o ffocws a mwy o gysondeb o ran yr hyn yr adroddir arno mewn perthynas â chydraddoldeb yn gyffredinol a chydraddoldeb hiliol yn benodol. Bydd dysgu proffesiynol a rhaglenni cysylltiedig trwy weithredu'r Cynllun 10 Pwynt hefyd yn cefnogi datblygiad templedi, yn cynnwys y rheiny ar gyfer data.

2.6 Nid yw amcanion a gweithredoedd i hyrwyddo Gwrth-hiliaeth a sicrhau profiadau a chanlyniadau teg ar gyfer dysgwyr a staff *Du yn amlwg mewn Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol. Mewn llawer o achosion, mae'r ffocws ar yr holl nodweddion gwarchodedig yn hytrach na thargedu gweithredoedd i fynd i'r afael â'r annhegwch y mae grŵp penodol yn ei wynebu. Mae sawl ffordd o fynd i'r afael â hyn. Er enghraifft, gallai datblygu cynllun gweithredu ar wahân ar gyfer cydraddoldeb hiliol (fel y mae Grŵp Llandrillo Menai ac UWTSD wedi gwneud) neu ystod ehangach o amcanion cydraddoldeb hiliol gyda gweithredoedd cyfatebol fel atodiad i Gynlluniau Cydraddoldeb Strategol presennol, gynorthwyo sefydliadau addysg bellach ymhellach o ran a) gwneud cyfraniad wedi ei dargedu'n fwy i Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru a'r nod o Gymru Wrth-hiliol a b) olrhain a monitro cynnydd yn dwyn yr agenda Wrth-hiliol ymlaen mewn sefydliadau ac ar draws y sector.

2.7 Her arall i sefydliadau addysg bellach yw sicrhau bod eu Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn dal yn gyfredol ac yn berthnasol h.y. sicrhau ei bod yn 'ddogfen fyw'. Mae rhai sefydliadau wedi mynd i'r afael â hyn trwy gyfeirio yn eu hadroddiadau cydraddoldeb blynyddol at faterion cyfredol, gan ddarparu, yn ei hanfod, ddiweddariad blynyddol i'w Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mewn un achos, mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol wedi cael ei ddiweddaru fel cynllun gweithredu blynyddol. Mae gormod o weithredoedd yn parhau o un flwyddyn i'r llall neu'n cael eu dwyn ymlaen o'r cynllun pedair blynedd blaenorol i'r nesaf. Gellir gweld y duedd hon hefyd mewn sawl adroddiad cydraddoldeb sydd wedi eu cyhoeddi'n flynyddol (2.9) isod.

2.8 Mae sefydliadau addysg bellach i gyd yn mynegi ymrwymiad clir i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae rhai yn cyfleu ymrwymiad i degwch ac yn cydnabod bod sicrhau tegwch yn gofyn am weithredoedd a allai fod yn wahanol i'r rheiny ar gyfer amrywiaeth a chynhwysiant. Er nad yw herio hiliaeth yn flaenllaw iawn yn y rhan fwyaf o Gynlluniau Cydraddoldeb Strategol, mae nifer o sefydliadau addysg bellach wedi cyhoeddi datganiadau o ymrwymiad i gydraddoldeb hiliol a/neu addewid Gwrth-

hiliaeth, yn cynnwys un sefydliad sydd wedi cyhoeddi addewid Mae Bywydau Du o Bwys[5].

2.9 Mae pob sefydliad yn creu adroddiadau cydraddoldeb sy'n cael eu cyhoeddi'n flynyddol ar wahân i Dewi Sant[6] (DS mae'r adroddiad ar gyfer Coleg Sir Gâr a Coleg Ceredigion yn cael ei gynhyrchu gan UWTSD. Mae Dewi Sant yn cynnwys y cynnydd a wnaed yn erbyn ei feysydd blaenoriaeth/amcanion ar gyfer cydraddoldeb yn ei Gynllun Gweithredu Blynyddol ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth). Mae cynnwys ac ansawdd yr adroddiadau yn amrywiol iawn. Mae rhai adroddiadau yn cynnwys cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcanion a'r gweithredoedd yn eu Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol, mae rhai ddim yn gwneud hynny. Mae llawer o'r adroddiadau sydd yn cynnwys cynnydd, yn rhoi trosolwg neu'n 'amlygu'r cynnydd a wnaed yn hytrach na rhoi manylion o'r cynnydd ar gyfer pob gweithred. Mae rhai adroddiadau yn cynnwys data, mae rhai ddim yn gwneud hynny. O'r adroddiadau hynny sydd yn cynnwys data, mae natur yr hyn sydd wedi ei gynnwys yn amrywio. Disgwylir bod adroddiadau yn cynnwys data ethnigrwydd ar ddysgwyr (cyfranogiad a chanlyniadau ar gyfer y math o ddarpariaeth a gynigir; h.y., addysg bellach a/neu uwch), prentisiaid (cyfranogiad a chanlyniadau), cyfansoddiad y gweithlu yn gyffredinol ac yn ôl gradd, cyfansoddiad y corff llywodraethu, prosesau recriwtio staff, prosesau AD staff (cwynion a disgyblu, yn cynnwys digwyddiadau o fwlio, aflonyddu, hiliaeth a gwahaniaethu) a digwyddiadau ymysg dysgwyr o fwlio, aflonyddu, hiliaeth a gwahaniaethu. Nid oes llawer o sefydliadau yn adrodd ar yr holl ddata yma. Mae'r fformatiau a ddefnyddir ar gyfer adrodd ar ddata yn anghyson yn aml o fewn sefydliadau unigol.

2.10 Mae'r dogfennau eraill sydd ar gael ar wefannau yn tueddu i fod yn a) bolisïau a gweithdrefnau sydd yn gysylltiedig ag ymddygiad (yn cynnwys bwlio ac aflonyddu) neu'r rheiny ar gyfer prosesau allweddol, ar gyfer materion gweinyddol yn aml, b) cynlluniau strategol, c) adroddiadau blynyddol a chyfrifon, d) a gwybodaeth am ddyfarniadau sefydliadol, staff a myfyrwyr. Mae gan rai sefydliadau addysg bellach bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth sydd ar wahân i'w Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Nid oes gan unrhyw un o'r sefydliadau addysg bellach bolisïau ar gyfer ymdrin ag aflonyddu hiliol a/neu hyrwyddo Gwrth-hiliaeth. Fodd bynnag, mae nifer o sefydliadau

[5] Addewid BLM: datganiad Coleg Ceredigion a Coleg Sir Gâr. Datganiad BLM: Coleg y Cymoedd. Addewid Dim Hiliaeth: Coleg Pen-y-bont ar Ogwr. Datganiadau Gwrth-hiliaeth/cydraddoldeb hiliol: UWTSD (Coleg Ceredigion a Coleg Sir Gâr, er nad yw UWTSD yn dweud bod y datganiad yn cynrychioli ei holl sefydliadau), USW (nid yw'r brifysgol yn dweud yn benodol bod hyn yn berthnasol i Goleg Merthyr Tudful), Addysg Oedolion Cymru a Coleg Gwent.

[6] Mae Datganiadau Ariannol Dewi Sant 2020-2021 yn datgan bod Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol yn cael ei gynhyrchu ond nid yw'n ymddangos ei fod ar gael ar wefan y Coleg. Mae Cynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth 2020-2021 y Coleg yn cynnwys y cynnydd a wnaed yn erbyn y meysydd blaenoriaeth/amcanion yn y cynllun.

yn cyfeirio at hil yn eu polisïau gwrth-fwlio ac aflonyddu, fel arfer mewn rhestr o nodweddion gwarchodedig neu enghreifftiau o gamymddwyn/camymddwyn difrifol tuag at bobl yn seiliedig ar eu hil.

2.11 Er bod rhai sefydliadau addysg bellach yn cyhoeddi manylion am eu gweithgareddau cydraddoldeb, yn cynnwys cydraddoldeb hiliol, mae llawer ddim yn gwneud hynny. Yn gyffredinol, mae llawer o gyfleoedd i hyrwyddo Gwrth-hiliaeth mewn sefydliadau ac ar draws y sector ac i arddangos gwaith sefydliadau addysg bellach o ran Gwrth-hiliaeth, yn cael eu colli.

2.12 Fel rhan o'r ymchwil ddesg, cafodd adroddiadau arolygiadau Estyn ar gyfer pob sefydliad addysg bellach eu harchwilio. Mae adrodd ar gydraddoldeb ac amrywiaeth yn amrywiol, oherwydd er bod Estyn yn ystyried materion cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arolygiadau, mae adroddiadau'n canolbwyntio ar gryfderau a meysydd ar gyfer gwella. Mewn rhai achosion, ni cheir unrhyw gyfeiriad at gydraddoldeb ac amrywiaeth o gwbl (Addysg Oedolion Cymru, Coleg Gwent, Coleg Sir Gâr a Coleg Ceredigion. Ar gyfer yr olaf, roedd yr arolygiadau yn 2014 cyn uno[7]). Yn y rhan fwyaf o achosion mae'r adroddiadau'n cynnwys rhai cyfeiriadau cyffredinol at gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu cynnwys yn fanylach mewn rhai adroddiadau; er enghraifft, mae'r adroddiadau ar gyfer Coleg y Cymoedd a Grŵp Llandrillo Menai yn cynnwys cyfeiriadau at arweinyddiaeth strategol o gydraddoldeb ac amrywiaeth, ynghyd ag enghreifftiau manylach o weithgareddau a wnaed gan ddysgwyr a staff.

*Casglu, monitro a/neu adrodd ar ddata*

2.13 Mae casglu, monitro a/neu adrodd ar ddata yn allweddol i weithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru, ond mae ymchwil ddesg a chyfarfodydd gydag arweinwyr yn nodi bod y rhain yn feysydd allweddol i'w datblygu. Mae data mewn adroddiadau cydraddoldeb blynyddol yn fylchog. Er enghraifft, nid yw data ar gyrhaeddiad dysgwyr a phrentisiaid bob amser wedi ei gynnwys mewn adroddiadau. Mae hyn yn ei wneud yn anodd canfod, i ddechrau, y graddau y mae data cyrhaeddiad yn cael ei archwilio am unrhyw wahaniaethau o ran canlyniadau rhwng grwpiau o ddysgwyr neu brentisiaid, ac yn ail, effaith unrhyw weithredoedd i fynd i'r afael â gwahaniaethau.

[7] Cyn dod yn golegau cyfansoddol o UWTSD yn 2014 a chyn uno'r ddau goleg yn 2017.

2.14 Os yw data'n cael ei gynnwys mewn cynlluniau ac adroddiadau, mae anghysondeb yn aml yn y setiau data a ddefnyddir, sy'n ei wneud yn anodd canfod tueddiadau. Mae fformatiau ar gyfer adrodd ar ddata yn gwahaniaethu ac nid oes llawer o safoni o ran sut mae data ethnigrwydd yn cael ei gydgrynhoi yn gategorïau lefel uchaf. Nid oes llawer o sefydliadau addysg bellach yn datgrynhoi data yn ôl categori ethnig manwl wrth ddadansoddi, er enghraifft, canlyniadau ar gyfer cyfansoddiad dysgwyr neu'r gweithlu. Er y gallai datgrynhoi arwain at rai niferoedd bach iawn ar gyfer grwpiau ethnig penodol, mae'n bwysig gwerthuso data ar y lefel hon lle y bo'n bosibl er mwyn gweld bylchau a gwahaniaethau o ran cyfranogiad a chanlyniadau, yn arbennig mewn perthynas â thueddiadau dros amser. Cafodd pwysigrwydd datgrynhoi data ethnigrwydd ei nodi yn Adroddiad Adolygu Tystiolaeth Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, sef "Disaggregating ethnicity data and considering other relevant variables would allow for better targeting of interventions, which should include a focus on increasing retention, success, and progression, in addition to access." (Stevenson et al., 2019)."[8]

2.15 Mewn llawer o sefydliadau, nid yw data ar gyfer prentisiaid, recriwtio staff, y corff llywodraethu, prosesau AD, digwyddiadau o fwlio, aflonyddu, hiliaeth a gwahaniaethu a phrofiadau bywyd arweinwyr, prentisiaid a staff *Du wedi cael ei gynnwys a'i ddadansoddi mewn cynlluniau ac adroddiadau. Mae cyfraddau peidio datgelu gan staff o ran ethnigrwydd yn eithriadol o uchel mewn nifer o sefydliadau (er enghraifft, mae peidio datgelu yn 50.0% ar hyn o bryd mewn un achos). Yn gyffredinol, mae angen brys i gyflymu'r gyfradd wella o ran adrodd ar ethnigrwydd ac er bod gwneud hynny'n ymddangos mewn nifer o gynlluniau, nid yw'r manylion ynghylch sut caiff hyn ei gyflawni wedi eu cynnwys. Mae angen strategaethau lleol, yn cynnwys dysgu proffesiynol trwy'r Cynllun 10 Pwynt, i godi ymwybyddiaeth staff o bwysigrwydd casglu, monitro ac adrodd ar ddata ethnigrwydd er mwyn datblygu'r agenda Wrth-hiliaeth.

2.16 Mae ymchwil ddesg wedi nodi bod angen i sefydliadau addysg bellach adolygu eu defnydd o ddata ethnigrwydd ac adrodd arno mewn perthynas â chydgrynhoi categorïau manwl yn gategorïau lefel uchel, yn cynnwys y derminoleg a ddefnyddir. Mae hyn yn debygol o ofyn am hyfforddiant ar gyfer staff cymorth, aseswyr, darlithwyr

[8] Adroddiad Adolygu Tystiolaeth Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, Arday, J, Improving Race Equality in Education, Prifysgol Durham, Mawrth 2021.

a rheolwyr fel bod pawb yn deall sut dylid cyflwyno a gwerthuso data ethnigrwydd. Byddai templedi wedi eu safoni o fudd hefyd.

2.17 Nid oes llawer o sefydliadau addysg bellach wedi cwestiynu data mewn digon o fanylder i nodi rhesymau sylfaenol dros unrhyw wahaniaethau yng nghanlyniadau dysgwyr neu brentisiaid a thangynrychiolaeth.

2.18 Mewn perthynas â staff *Du, nid oes llawer o sefydliadau addysg bellach yn dadansoddi cynrychiolaeth yn ôl math o staff a gradd ac nid ydynt chwaith yn edrych ar brosesau recriwtio ac ymarfer mewn digon o fanylder i bennu'r gweithredoedd sydd eu hangen i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth.

2.19 Mae angen mynd i'r afael â materion data er mwyn i Lywodraeth Cymru gyflawni a) y nod o sefydlu sail dystiolaeth gadarn ar gyfer y sector a b) y canlyniadau a fwriadwyd o ran Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

*Adolygu'r Cwricwlwm*

2.20 Mae pob sefydliad addysg bellach wedi mynegi diddordeb yn cynnal adolygiad peilot o'r cwricwlwm a'r cyrff dyfarnu. Mae City and Guilds a VTCT wedi mynegi diddordeb yn cefnogi adolygiadau. Ffocws y cynlluniau peilot hyn yw datblygu cwricwla galwedigaethol Gwrth-hiliol. Mae'r rhestr o feysydd cwricwlwm posibl ar gyfer y peilot wedi ei chynnwys yn Atodiad B.

2.21 Mae gan y rhan fwyaf o sefydliadau addysg bellach amcan o ran cydraddoldeb sydd yn gysylltiedig â'r cwricwlwm, cyrsiau a/neu ddysgu. Nid yw'r amcanion hyn, fodd bynnag, ar y cyfan yn cynnwys gweithredoedd yn ymwneud â darparu cwricwla Gwrth-hiliol, addysgeg, asesu a/neu brofiadau dysgu teg. Yr ethriad i hyn yw Cynllun Cydraddoldeb Strategol a Chynllun Cydraddoldeb Hiliol UWTSD (sy'n berthnasol i Goleg Sir Gâr a Coleg Ceredigion) a Chynllun Cydraddoldeb Strategol USW (sy'n berthnasol i Goleg Merthyr Tudful) a Chynllun Gweithredu ar Gydraddoldeb Hiliol Grŵp Llandrillo Menai, sydd i gyd yn rhoi amlygrwydd i'r cwricwlwm ac addysgeg, yn cynnwys dadwladychu'r cwricwlwm. Dylid nodi bod cynlluniau UWTSD ac USW yn canolbwyntio ar addysg uwch ac nid ydynt yn cynnwys darpariaeth addysg bellach. Nid yw Coleg Sir Gâr a Coleg Ceredigion na Coleg Merthyr Tudful yn adrodd ar y ffordd y mae mentrau cwricwlaidd Gwrth-hiliol a nodir yn y Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol yn cael, neu'n mynd i gael, eu gweithredu yn y cyd-destun addysg bellach.

2.22 Mae datblygu cwricwla, addysgeg ac asesu Gwrth-hiliol yn feysydd allweddol i'w datblygu ar gyfer pob sefydliad addysg bellach yng Nghymru, yn arbennig oherwydd y pwyslais ar hyrwyddo Gwrth-hiliaeth a thegwch hiliol yn y Cwricwlwm i Gymru trwy waith Gweithgor Cymunedau, Cyfraniadau a Chynefin Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cwricwlwm Newydd.

2.23 Bydd angen i adolygiadau sicrhau y gellir cyflwyno unrhyw ddiwygiadau i'r cwricwlwm yn y Gymraeg.

2.24 Nododd y Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio gyda Phlaid Cymru ymrwymiadau ar y cyd i ymestyn yr ysgol o gymwysterau galwedigaethol "gwnaed ar gyfer Cymru" yn sylweddol, i fodloni anghenion dysgwyr Cymru ac economi Cymru. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ei hadolygiad o'r cynnig presennol o gymwysterau galwedigaethol, ac unrhyw ddiwygiadau wedi hynny i gymwysterau, yn achub ar gyfleoedd i ymgorffori cysyniadau ac arferion gwrth-hiliaeth.

*Gweithredu Cynllun 10 Pwynt y BLG*

2.25 Mae dau goleg – Coleg Caerdydd a'r Fro a Coleg Gwent – ag ymlyniad â'r BLG ac mae un arall, Dewi Sant, yn y broses o wneud hynny. Mae ymlyniad yn cynnwys gweithredu'r Cynllun 10 Pwynt. Mae'r deg sefydliad addysg bellach arall wedi mynegi diddordeb yn defnyddio Pecyn Cymorth Diagnostig y Cynllun 10 Pwynt a/neu ymlyniad. Mae un o'r rhain yn rhan o grŵp SAU ac mae'n trafod goblygiadau ymlyniad, os oes rhai, o fewn strwythur y grŵp.

2.26 Dywedodd sawl sefydliad addysg bellach y byddent yn croesawu cymorth cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithredu'r Cynllun 10 Pwynt.

2.27 Disgrifiodd llawer o sefydliadau addysg bellach anawsterau yn recriwtio staff a byddent yn croesawu cymorth i recriwtio staff *Du. Mae cyfle i ddatblygu strategaethau lleol a rhaglen leoli genedlaethol arloesol ar gyfer doniau Du o fewn cyd-destun gweithredu'r Cynllun 10 Pwynt.

## 3. PRIF GANFYDDIADAU: RHANDDEILIAID BLAENLLAW

3.1 Rhoddodd y cyfarfodydd a gynhaliwyd gyda rhanddeiliaid ddealltwriaeth o'u rôl mewn perthynas â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol ac archwiliodd eu safbwynt sefydliadol ar Wrth-hiliaeth. Roedd y themâu ddaeth i'r amlwg fel a ganlyn:

3.2 Mynegodd yr holl randdeiliaid gefnogaeth tuag at Gymru Wrth-hiliol erbyn 2030 gan groesawu ymrwymiad Gweinidogion ac uwch swyddogion i Wrth-hiliaeth. Awgrymwyd y byddai rhaglen o godi ymwybyddiaeth o Wrth-hiliaeth a meithrin gallu ar gyfer swyddogion o fudd er mwyn iddynt allu cefnogi'r agenda Wrth-hiliaeth yn iawn.

3.3 Ymddengys bod y rhan fwyaf o sefydliadau rhanddeiliaid yn syrthio i mewn i'r categori 'anhiliol'. Ceir dealltwriaeth gyfyngedig o oblygiadau mabwysiadu safbwynt Gwrth-hiliol. Mae rhwyfaint o waith arwyddocaol a radical (a chyllideb gysylltiedig) yn flaenoriaeth i wella dealltwriaeth o feddylfryd ac ymddygiad Gwrth-hiliol er mwyn gallu gwireddu'r uchelgais o fewn cyfnod o amser heriol 2030. Dylai Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â ColegauCymru a sefydliadau addysg bellach, wneud gwaith i gyfleu gweledigaeth glir ar gyfer Gwrth-hiliaeth ar gyfer y sector addysg bellach a'r hyn y mae "gwrth-hiliol" yn ei olygu'n ymarferol.

3.4 Mae gan y rhan fwyaf o randdeiliaid ddiffyg hyder ynghylch Gwrth-hiliaeth a byddent eu hunain yn cael budd o weithredu agweddau ar Gynllun 10 Pwynt y BLG er mwyn datblygu gallu sefydliadol mewnol er mwyn cyfrannu'n ystyrlon at agenda Wrth-hiliaeth 2030.

3.5 Er bod y rhan fwyaf o'r sefydliadau rhanddeiliaid gafodd gyfweliad wedi ymateb i ymgynghoriad Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, yn gyffredinol, ymddengys bod diffyg eglurder ynghylch eu cynllunio a'u blaenoriaethau, eu rolau a'u cyfrifoldebau, a'u disgwyliadau eu hunain ar gyfer y dyfodol.

3.6 Ymddengys mai dim ond dau o'r rhanddeiliaid oedd â swydd benodol oedd yn cynnwys cyfrifoldeb dros hyrwyddo Gwrth-hiliaeth a mynd i'r afael ag annhegwch hiliol - Coleg Cymraeg Cenedlaethol (o fis Ionawr 2022) a NTfW (swydd prosiect tymor sefydlog sydd yn dod i ben ym mis Gorffennaf 2022). Mae Estyn wedi sôn eu bod yn ymdrin â chydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig, felly mae ganddynt arolygydd arwain ar gyfer cydraddoldeb ac amrywiaeth yn hytrach nag un ar wahân ar gyfer Gwrth-hiliaeth.

3.7 Nid yw rhanddeiliaid wedi cael llawer o ymgysylltu strategol gyda sefydliadau addysg bellach a ColegauCymru mewn perthynas â chydraddoldeb hiliol ac ymddengys bod cyfleoedd ar gyfer cydweithredu i fynd i'r afael ag annhegwch hiliol yn y system yn cael eu colli.

3.8 Mae gan Gyrfa Cymru gyfoeth o wybodaeth hanesyddol ac mae'n parhau i gasglu data ar, er enghraifft, cyrchfannau dysgwyr, dilyniant, a phobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) . Pe bai'n cael ei dadansoddi, gallai'r wybodaeth yma ddangos tueddiadau defnyddiol i gefnogi diwygio cymwysterau, adolygiadau cwricwlwm, cwricwla a chynlluniau colegau.

3.9 Wrth gyflwyno'r fframwaith arolygu newydd, mae cyd-fynd yn agosach â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn gyfle i Estyn gael rôl ddylanwadol yn datblygu Gwrth-hiliaeth yn ymarferol. Bydd hyn yn golygu gofyn cwestiynau anodd, defnyddio data ethnigrwydd cymharol i sicrhau profiadau a chanlyniadau dysgu teg, modelu rolau a chysondeb a chraffu trylwyr ar draws y sector. Mae'n hanfodol bod arolygwyr yn hyddysg ac yn hyderus yn rhoi safbwyntiau ar ymarfer Gwrth-hiliol a bod timau arolygu yn gynrychioliadol.

3.10 Mae gan Cymwysterau Cymru rôl reoliadol yn sicrhau bod cymwysterau wedi eu rheoleiddio yn cael eu dylunio a'u hasesu mewn ffordd sydd yn deg i bob dysgwr. Mae darn o waith sylweddol dros y blynyddoedd diweddar wedi cynnwys adolygiadau sector o gymwysterau galwedigaethol ac mae'n hanfodol bod adolygiadau yn y dyfodol yn ymgorffori Gwrth-hiliaeth yng nghynnwys, dyluniad, cyflwyniad ac asesiad cymwysterau.

## 4. ARGYMHELLION

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyfeiriad clir ynghylch agenda feirniadol Gwrth-hiliaeth a rôl sefydliadau addysg bellach yn cyflawni'r nod o Gymru Wrth-hiliol erbyn 2030. Mae'r sefydliadau wedi ymrwymo i ddatblygu Gwrth-hiliaeth a, chyda chefnogaeth, maent ar fin gwneud cyfraniad sylweddol i nodau Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

Mae'r argymhellion yn rhoi set ryng-gysylltiedig o weithredoedd y gall y Llywodraeth eu cyflawni er mwyn sicrhau llwyddiant. Mae Argymhellion 1, 2 a 3 yn darparu'r man cychwyn ar gyfer datblygu Cynlluniau Gwrth-hiliaeth pwrpasol (yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau unigol) a hyfyw ar gyfer pob sefydliad addysg bellach. Yn ogystal, bydd y cynlluniau'n galluogi sefydliadau addysg bellach i gyfrannu'n llawn at nodau a chynnyrch dymunol Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

**Blaenoriaethau Uniongyrchol**

## Argymhelliad 1: Cynlluniau Gweithredu Gwrth-hiliaeth Addysg Bellach

Dylai pob sefydliad addysg bellach (yn cynnwys Coleg Sir Gâr a Coleg Ceredigion, rhan o bartneriaeth sector deuol gyda UWTSD a rhan Coleg Merthyr Tudful o Grŵp USW) ddatblygu a chyhoeddi cynlluniau gweithredu Gwrth-hiliaeth penodol yn seiliedig ar dystiolaeth, sydd yn mynd i'r afael ag anghenion lleol ac yn cyd-fynd ag amcanion ac uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru Wrth-hiliol 2030.

Dylai'r cynlluniau fod yn ddogfennau byw, ar fformat rhagnodedig gyda thargedau ansoddol a meintiol mesuradwy a cherrig milltir ar gyfer canlyniadau a fwriedir, yn arbennig ar gyfer y gweithredoedd hynny sy'n rhychwantu sawl blwyddyn, yn cynnwys tuag at 2030.

Mae amcanion neu weithredoedd yn ymwneud â chynnwys cwricwlwm, ymagweddau addysgeg a natur asesu yn hanfodol i gyrhaeddiad a chanlyniadau dysgwyr. Dylai'r rhain fod yn nodwedd glir o'r cynllun gweithredu.

Dylai sefydliadau addysg bellach gynnwys adrodd ar y bwlch cyflog yn ymwneud ag ethnigrwydd yn eu cynlluniau gweithredu os nad ydynt yn gwneud hynny'n barod.

Wrth ddatblygu eu cynlluniau Gwrth-hiliaeth, dylai sefydliadau addysg bellach gyfeirio at eu Hadroddiadau Proffil unigol sydd wedi cael eu creu fel rhan o'r prosiect cwmpasu hwn. Mae'r adroddiadau'n cynnwys argymhellion manwl ddylai fod yn ddefnyddiol yn cryfhau amcanion cydraddoldeb sefydliadol, Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol ac adroddiadau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Blynyddol.

Mae deall profiadau bywyd yn hanfodol bwysig i ddatblygu ymagweddau ac ymarfer Gwrth-hiliaeth. Dylid ymgynghori â dysgwyr *Du a staff *Du a'u cynnwys wrth ddatblygu cynlluniau gweithredu Gwrth-hiliaeth.

## Argymhelliad 2: Casglu, monitro a/neu adrodd ar ddata ansoddol a meintiol

Er mwyn tanategu strategaeth ac ymarfer ac i fesur cynnydd, fel mater o frys, dylai Llywodraeth Cymru weithio mewn cydweithrediad â ColegauCymru, sefydliadau addysg bellach, EHRC Cymru a rhanddeiliaid perthnasol eraill i:

- gategoreiddio a gwella monitro ac adrodd ar ddata cynhwysfawr, cymharol, wedi ei ddatgrynhoi yn ymwneud â pherfformiad ac ethnigrwydd dysgwyr a phrentisiaid; dylai'r rhain gynnwys data cyfranogiad, cyfraddau cadw, cyflawniad, cynnydd, dilyniant a chyrchfan,
- categoreiddio a gwella 'r gwaith o gasglu, monitro ac adrodd ar ddata staffio a llywodraethu,
- gwella'r gwaith o gasglu, monitro ac adrodd ar ddata prosesau AD, digwyddiadau o fwlio, aflonyddu, gwahaniaethu a/neu hiliaeth a phrofiadau bywyd dysgwyr, prentisiaid a staff *Du.
- dyrannu cyfrifoldebau ar gyfer dadansoddi, cadw, monitro a chyhoeddi data, ac ar ba lefelau (sefydliadol a chenedlaethol),
- diffinio dulliau atebolrwydd,
- diffinio mesurau effaith amrywiaeth ethnig ar gyfer addysg bellach,
- datblygu methodoleg ar gyfer deall profiad ethnigrwydd gwahanol yng Nghymru.

### Argymhelliad 3: Gweithredu Cynllun 10 Pwynt y BLG

Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi gweithredu Cynllun 10 Pwynt y BLG. Dylai hyn gynnwys cyllid ar gyfer:

- rhaglen gydweithredol gysylltiedig o ddysgu proffesiynol o ran cynnwys, adnoddau a chyflwyno cwricwlwm (tiwtorial, addysgeg a hyfforddiant i athrawon), rhannu arfer da a sicrhau ansawdd,
- Rhaglen Genedlaethol ar gyfer Lleoliadau Doniau *Du mewn addysg bellach yng Nghymru er mwyn helpu a) i fynd i'r afael â'r argyfwng presennol o ran recriwtio athrawon, b) cynyddu cynrychiolaeth staff *Du a c) cynyddu nifer y modelau rôl *Du mewn sefydliadau adddysg bellach, *a*

rhaglen genedlaethol cysgodi arolygwyr Estyn ar gyfer Staff *Du mewn addysg bellach. Gallai hyn gynnwys rhaglen o hyfforddiant a datblygiad wedi ei chyflwyno gan Estyn, hyfforddi a mentora gan arolygwyr Estyn, a chysgodi arolygwyr yn ystod arolygiadau neu waith arall. Byddai'r rhaglen o fudd i'r cysgodwyr, arolygwyr, a sefydliadau a byddai'n helpu i godi proffil staff *Du yn system addysg bellach Cymru. Dylid rhoi'r argymhelliad hwn ar brawf gydag Estyn.

### Argymhelliad 4: Cynlluniau Gwrth-hiliaeth sefydliadol ehangach

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cynnwys, fesul achos, mewn llythyrau cylch gwaith/grant presennol ac yn y dyfodol at y sefydliadau rhanddeiliaid addysg bellach

allweddol y mae'n eu hariannu, ofyniad i ddatblygu cynlluniau gweithredu Gwrth-hiliaeth sydd yn cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Dylai cynlluniau ar lefel sefydliadol gynnwys rolau a chyfrifoldebau ar gyfer hyrwyddo Gwrth-hiliaeth a mynd i'r afael ag annhegwch hiliol, a blaenoriaethau ar gyfer datblygu ymarfer Gwrth-hiliol a theg. Dylai'r cynlluniau hefyd gynnwys, lle y bo'n briodol, flaenoriaethau ar gyfer cefnogi, arolygu/adolygu ac ymgysylltu â sefydliadau addysg bellach.

**Blaenoriaethau Tymor Canolig**

### Argymhelliad 5:  Adolygu'r cwricwlwm

Dylai Llywodraeth Cymru ariannu adolygiadau cwricwlwm peilot sy'n sefydlu cynnwys ac addysgeg Gwrth-hiliaeth, gyda'r bwriad o ddatblygu Fframwaith Cwricwlwm Gwrth-hiliol Cenedlaethol ar gyfer addysg bellach. Dylai hwn fod yn brosiect cydweithredol yn cynnwys arbenigwyr cwricwlwm Gwrth-hiliaeth, sefydliadau dyfarnu allweddol, a sefydliadau adddysg bellach, a dylai gyd-fynd â diwygiadau presennol i'r cwricwlwm ac agweddau perthnasol ar yr argymhellion sydd eisoes yn cael eu derbyn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cwricwlwm ysgol uwchradd. O ystyried cylch gwaith y sector ar gyfer sgiliau, dylai'r adolygiadau ganolbwyntio ar bynciau a/neu gymwysterau galwedigaethol. Dylid ystyried rhoi blaenoriaeth i'r meysydd hynny sydd yn bwysig i Gymru yn economaidd.

### Argymhelliad 6: Llwybrau Dilyniant ESOL

Er mwyn cefnogi ei nod o "sicrhau bod darpariaeth ESOL yn cefnogi anghenion cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn llawn", dylai Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad â sefydliadau addysg bellach, ColegauCymru a Cymwysterau Cymru, ddatblygu a chyhoeddi llwybrau dilyniant ar gyfer dysgwyr ESOL i hyfforddiant galwedigaethol, prentisiaethau ac addysg uwch.

Dylid defnyddio data ar ddilyniant o raglenni ESOL i hyfforddiant galwedigaethol, prentisiaethau ac addysg uwch i a) bennu effeithiolrwydd darpariaeth bresennol a b) nodi blaenoriaethau ar gyfer datblygiad yn unol â chanlyniadau'r adolygiad polisi ESOL sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd.

Argymhelliad 7: Gofynion ar gyfer datblygu cymwysterau ôl-16

Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno gofyniad gorfodol i ddangos sut mae bodloni'r agenda Gwrth-hiliaeth wedi cael ei ystyried yn natblygiad pob cymhwyster ôl-16 ar gyfer y dyfodol o ran cynnwys, addysgeg ac ymagweddau dylunio a chyflwyno.

Argymhelliad 8: Cefnogi ac annog llais dysgwr *Du a staff *Du

Mae'n hanfodol bod gan ddysgwyr, prentisiaid, staff a'r gymuned ehangach *Du lais ffurfiol ar y cyd a hyder i ddwyn unigolion a sefydliadau i gyfrif a'u bod yn cael eu cynrychioli ar bob lefel yn y system addysg bellach, yn cynnwys llywodraethu, arweinyddiaeth a rheolaeth, staffio, byrddau cynghori, pwyllgorau, yr arolygiaeth a chyrff eraill sydd â goruchwyliaeth addysgol.

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda ColegauCymru, sefydliadau addysg bellach a rhanddeiliaid cysylltiedig i ddatblygu strwythurau galluogi a dulliau priodol fydd yn sicrhau cyfraniad llais dysgwyr, prentisiaid, staff a'r gymuned ehangach *Du i'r agenda Wrth-hiliaeth ac i ddatgymalu unrhyw anghydraddoldebau hiliol sy'n bodoli yn y system addysg bellach.

Argymhelliad 9: Arweinyddiaeth Wrth-hiliaeth

Mae gan Lywodraeth Cymru rôl hanfodol i'w chwarae yn arddangos arweinyddiaeth o Wrth-hiliaeth trwy:

Gydweithredu â ColegauCymru a sefydliadau addysg bellach i gyfleu gweledigaeth glir ar gyfer Gwrth-hiliaeth yn y sector a beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol.

Datblygu cynllun penodol yn dangos sut bydd yr adrannau Arweinyddiaeth a Chynrychiolaeth ar dudalennau 34-40 o Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn berthnasol yng nghyd-destun addysg bellach a'r sector addysg yn ehangach.

Argymhelliad 10: Uchelgais Cymru Wrth-hiliol

Dylai Llywodraeth Cymru egluro statws Uchelgais Cymru Wrth-hiliol – er enghraifft a yw'n arweiniad ac yn anstatudol – a sut mae'n croestorri â'r Ddeddf Cydraddoldeb – gofyniad deddfwriaethol sydd, am yr 11+ mlynedd diwethaf, wedi rhoi blaenoriaeth i

‘ymagwedd polisïau a gweithdrefnau’ ond, yn ymarferol, sydd heb wella sefyllfa unrhyw un o’r grwpiau â ‘nodweddion gwarchodedig’ yn sylweddol.

Argymhelliad 11: Bwrdd Arfaethedig ar gyfer Comisiynu Addysg Drydyddol ac Ymchwil yng Nghymru

Dylai Llywodraeth Cymru, fel rhan o strategaeth ar gyfer cynyddu cynrychiolaeth *Ddu amlwg mewn swyddi arweinyddiaeth pwysig trwy Benodiadau Cyhoeddus i Fyrddau Cyhoeddus yn ehangach, sicrhau bod Bwrdd arfaethedig ar gyfer y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil yng Nghymru yn gynrychioliadol o ran ei aelodaeth.

**Blaenoriaeth Tymor Hwy**

Argymhelliad 12: Mwy o ymchwil

Cylch gwaith y prosiect oedd gwneud gwaith cychwynnol i helpu i baratoi ar gyfer rhaglen o ymchwil, dadansoddi a datblygu cydraddoldeb ar gyfer y sector addysg bellach:

Dylai Llywodraeth Cymru ariannu mwy o ymchwil a phrosiectau cydweithredol fydd yn cefnogi gweithredu’r argymhellion uchel, a datblygiad mentrau ac ymarfer Gwrth-hiliol arloesol. Dylai hyn gynnwys casglu, monitro ac adrodd ar ddata, llais dysgwyr, prentisiaid, staff a chymunedol *Du, adolygu a datblygu cwricwlwm, addysgeg, asesu, adnoddau, arfer da, sicrwydd ansawdd a chraffu, arweinyddiaeth yn cynnwys llywodraethu a meithrin gallu, strategaethau recriwtio a dilyniant gyrfa i ddenu a chadw staff *Du.

## 5. CAMAU NESAF

5.1 Mae’r adroddiad hwn yn rhoi asesiad cychwynnol o’r cyfraniad presennol y gall sefydliadau addysg bellach ei wneud i Gynllun Gweithredu Gwrth-hiliaeth Llywodraeth Cymru a meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach i wireddu’r uchelgais o Gymru Wrth-hiliol erbyn 2030.

5.2 Mae’r canfyddiadau wedi nodi, er mwyn creu newid amserol, bod angen gweithredu ar lefel sefydliadol a chenedlaethol, sydd yn gofyn am gyfeiriad ac arweinyddiaeth gan Lywodraeth Cymru. Yn ogystal, mae gofynion sylweddol yn gysylltiedig ag adeiladu’r sail dystiolaeth ansoddol a meintiol y mae’r Llywodraeth yn ceisio ei

ffurfio i nodi gweithredoedd fydd yn arwain at ddatgymalu annhegwch hiliol strwythurol yn y system addysg bellach:

### Sefydliadau Addysg Bellach

5.3 Mae gan sefydliadau addysg bellach rôl hanfodol i'w chwarae yn datblygu Gwrth-hiliaeth yng Nghymru a chyfrannu'n llawn at y sail dystiolaeth trwy a) ddatblygu, gweithredu a monitro cynlluniau gweithredu Gwrth-hiliol gydag adnoddau a b) cyfranogiad gweithredol mewn prosiectau AB cenedlaethol sy'n datblygu uchelgais Cymru Wrth-hiliol 2030. Bydd sefydliadau angen cymorth, yn cynnwys:

- Arweiniad ar y fformat ar gyfer Cynlluniau Gweithredu Gwrth-hiliaeth sydd yn cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru a hyfforddiant ar ddatblygu a chyflwyno cynllun Gwrth-hiliol sefydliadol.
- Fformatiau adrodd ar ddata ethnigrwydd safonol ar gyfer Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol, Cynlluniau Gweithredu Gwrth-hiliaeth ac Adroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol a hyfforddiant ar gydgrynhoi, gwerthuso, monitro ac adrodd ar ddata ar gyfer:
    - dysgwyr a phrentisiaid
    - staff
    - llywodraethwyr
    - prosesau AD
    - digwyddiadau o fwlio, aflonyddu, gwahaniaethu neu hiliaeth – dysgwyr, prentisiaid a staff
    - profiadau bywyd dysgwyr, prentisiaid a staff *Du
- Hyfforddiant ar addysgeg Wrth-hiliol ar gyfer arweinwyr, rheolwyr, darlithwyr ac arsyllwyr.
- Hyfforddiant ar ymgorffori craffu ar ymarfer Gwrth-hiliol mewn prosesau sicrhau ansawdd.
- Hyfforddiant a fframwaith ar gyfer adolygu a datblygu cwricwla cyfredol, gan sicrhau ei fod yn adlewyrchu gwerthoedd cyfoes, gan ymgorffori pwysigrwydd hanes trefedigaethol a'i ddylanwad ar gymdeithas, yn hanesyddol a nawr; effaith hiliaeth ar gymunedau *Du a gwyn; y cyfraniadau a wnaed gan bobl *Ddu i gymdeithas.
- Strategaethau a rhaglenni i gynyddu recriwtio a dilyniant gyrfa ar gyfer staff *Du.
- Strategaethau i wella peidio datgelu ethnigrwydd a sut i gynyddu adrodd.
- Hyfforddiant ar ddatblygu mesurau effaith ar gydraddoldeb.

**Llywodraeth Cymru**

5.4 Yn genedlaethol, bydd angen i'r Llywodareth fod yn sefydliad arwain ar gyfer:

- Comisiynu'r fframwaith ar gyfer Cynlluniau Gweithredu Gwrth-hiliaeth.
- Comisiynu cynnwys cwricwlwm Gwrth-hiliol.
- Strategaeth recriwtio Cymru gyfan i gynyddu cyfran y staff *Du ar bob lefel yn y sector addysg bellach.
- Datblygu a gweithredu strategaeth ar gyfer craffu allanol, yn cynnwys arolygu (mewn cydweithrediad ag Estyn), ar ymarfer Gwrth-hiliol. Gallai hyn gynnwys adolygiadau thematig, ac mae angen ei hystyried fel rhan o gyfrifoldebau ansawdd Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil y dyfodol.
- Datblygiad strategaeth a ffora i gryfhau llais dysgwyr *Du, staff *Du, a llywodraethwyr *Du.

**Llywodraeth Cymru, Sefydliadau Addysg Bellach a ColegauCymru**

5.4 Ar y cyd ac yn unigol, gweithredu i godi ymwybyddiaeth trwy hyrwyddo mentrau Gwrth-hiliol yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol a chyhoeddi straeon newyddion da.

# ATODIAD A

# RHESTR O GYFRANOGWYR

**Rhestr o Gyfranogwyr y Prosiect**

**Sefydliadau Addysg Bellach**

- Addysg Oedolion Cymru
- Coleg Penybont
- Coleg Caerdydd a'r Fro
- Coleg Cambria
- Coleg y Cymoedd
- Coleg Gwent
- Colegau cyfansoddol Coleg Sir Gâr a Coleg Ceredigion [9] o Brifysgol y Drindod Dewi Sant (UWTSD)
- Coleg Gŵyr Abertawe
- Grŵp Llandrillo Menai
- Grŵp Colegau NPTC
- Coleg Sir Benfro
- Coleg Catholig Dewi Sant
- Coleg Merthyr Tudful, rhan o Grŵp Prifysgol De Cymru (USW)

**Rhanddeiliaid Allweddol**

- Gyrfa Cymru
- Comisiynydd Plant Cymru
- Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol
- Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA)
- Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (EHRC) Cymru
- Estyn
- Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid (EYST) Cymru
- Y Sefydliad Dysgu a Gwaith
- Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru (NTfW)
- UCM Cymru
- Cymwysterau Cymru
- Unsain

[9] Dadansoddiad cyfunol gyda Coleg Ceredigion gan fod y ddau sefydliad addysg bellach wedi uno yn 2017 ond mae'r enwau wedi cael eu cadw ar wahân.

ATODIAD B

MAP PWNC PEILOT Y CWRICWLWM

## GRID MAPIO PWNC ADOLYGIAD PEILOT Y CWRICWLWM

| Coleg | Mynegiant o Ddiddordeb | Maes Cwricwlwm | Maes Cwricwlwm |
|---|---|---|---|
| Addysg Oedolion Cymru | √ | ESOL | ESOL a Pharatoi Gwaith |
| Coleg Penybont | √ | Amaethyddiaeth, Garddwriaeth a Gofal Anifeiliaid | |
| Coleg Caerdydd a'r Fro | √ | Adeiladwaith a Gwasanaethau Adeiladu | Technolegau gwyrdd |
| Coleg Cambria | √ | Peirianneg Adeiladu | Iechyd a Gofal Cymdeithasol |
| Coleg y Cymoedd | √ | Tiwtorial | Cyfoethogi |
| Coleg Gwent | √ | Iechyd a Gofal | Arlwyo |
| Coleg Sir Gâr a Coleg Ceredigion | √ | Meysydd allblyg:<br><br>Hamdden a Thwristiaeth<br>Y Celfyddydau Perfformio | Ar gyfer Effaith:<br>Her Adeiladu:<br>Amaethyddiaeth |
| Coleg Gŵyr Abertawe | √ | ESOL a chyd-fynd â hyfforddiant galwedigaethol | |
| Grŵp Llandrillo Menai | √ | Gwallt a Harddwch | Rhaglen Tiwtorial |
| Grŵp Colegau NPTC | √ | Gwallt a Harddwch | |
| Coleg Sir Benfro | √ | Iechyd a Gofal Cymdeithasol | |
| Coleg Catholig Dewi Sant | √ | Y Dyniaethau a'r Gwyddorau Cymdeithasol | |
| Coleg Merthyr Tudful | √ | Gwallt a Harddwch | Gofal plant |

# ATODIAD C

# PYWLLGOR LLYWIO'R PROSIECT CWMPASU

**Prosiect cwmpasu ColegauCymru/Black Leadership Group ar gyfer Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru – Aelodaeth a Chylch Gwaith y Pwyllgor Llywio:**

**Aelodaeth:**

| | |
|---|---|
| Mike James (Cadeirydd) | Coleg Caerdydd a'r Fro |
| Stella Mbubaegbu | Black Leadership Group |
| Robin Landman | Black Leadership Group |
| Guy Lacey | Coleg Gwent/Cadeirydd ColegauCymru |
| Kathryn Robson | Addysg Oedolion Cymru |
| Lisa Thomas | Coleg Merthyr Tudful |
| Lucy Webb | Coleg Penybont |
| Marian Jebb | Llywodraeth Cymru (Arsyllwr) |
| Rachel Bowen | ColegauCymru |

**Diben:**

Goruchwylio Prosiect Cwmpasu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

**Cyfrifoldebau:**

Sicrhau bod y nodau a'r cynnyrch ar gyfer Prosiect Cwmpasu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn cael eu cyflawni gyda'r adroddiad terfynol a'r argymhellion yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cyflwyno y cytunwyd arno.

**Dyma'r cyfrifoldebau penodol:**

a) cofnodi cyfarfodydd, yn cynnwys unrhyw wrthdaro buddiannau,

b) derbyn adroddiadau cynnydd ar y prosiect a chyflwyniad ei gynnyrch,

c) monitro cyflwyno'r cynnyrch penodedig o fewn yr amser y cytunwyd arno,

d) adolygu a rhoi adborth ar adroddiad drafft ac argymhellion y prosiect,

e) cymeradwyo/llofnodi'r adroddiad terfynol a'r argymhellion i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru

f) cyfrannu at a chefnogi cyfathrebiadau yn ymwneud â'r prosiect, yn cynnwys lledaenu'r canfyddiadau a'r adroddiad terfynol.